



Croeso i rifyn cyntaf Cylchlythyr Lles YGCR 23-24!

Rydym yn YGCR yn cymryd llesiant ein cymuned ysgol o ddifri ac yn gweithio'n ddi-flino i hyrwyddo llesiant ein disgyblion, ein rhieni a'n staff. Mae hunan ofal yn allweddol er mwyn cynnal pobl eraill o'n cwmplas i fod y gorau y gallant fod. Bwriad y cylchlythyr hanner tymhorol hwn yw i'ch hysbysu fel rhieni a disgyblion o'r holl weithgarwch a chynhaliath llesiant sy'n digwydd yn yr ysgol i'ch galluogi i fanteisio ar yr hyn sydd ar gael.

Pwy sy'n gweithio gyda fy mhlentyn?

Rydym yn rhoi pwyslais mawr ar y **Tiwtor dosbarth**.

Mae rôl y Tiwtor dosbarth yn hanfodol er mwyn sicrhau bod rhediad yr ysgol, lles academiaidd a bugeiliol llwyddiannus, yn effeithlon o ran datblygu ein dysgwyr llwyddiannus, unigolion hyderus a dinasyddion cyfrifol. Bydd y Tiwtor dosbarth yn cynnal cyfweiliadau ffurfiol gyda'ch plentyn er mwyn gwirio bod popeth yn mynd yn iawn. Mae'r amser bugeiliol a chyfnod cofrestru yn gyfle allweddol i sefydlu'r berthynas honno ac yn sicrhau bod dechreuad diwrnod eich plentyn yn ei baratoi am y diwrnod o'i flaen. Mae'n **allweddol** felly bod pawb yn mynychu'r cyfnod hwnnw! Mae cofrestru'n **dechrau** am 8.40.



A

Wythnos A
= Aseinio
gwaith

B

Wythnos B
= Barod i
weithio

C

Wythnos C
= Clod

Beth ydy fy mhlentyn yn dysgu?

Yn ystod cyfnodau gyda'r Tiwtor dosbarth, bydd trafodaethau ynglyn â phwysigrwydd **presenoldeb** uchel yn yr ysgol ac wrth gwrs gwersi, **ymddygiad** teilwng/ Classcharts a bod y disgyblion yn 'barod i weithio' o ran **offer** [beiro/trefnydd/gwisg] ac o ran **agwedd**. Yn cydfynd â dibenion y cwricwlwm newydd, datblygwn

ddysgwyr
uchelgeisiol,
galluog

gyfranwyr
mentrus,
creadigol

ddinasyddion
egwyddorol,
gwybodus

unigolion
iach,
hyderus

Yn ystod ein sesiynau yr hanner tymor hwn rydym wedi edrych ar **hawliau'r plentyn, parch a chyfrifoldeb, cyfeillgarwch, ymddiriedolaeth a gonestrwydd, gosod targedau, sgiliau astudio a rheoli amser**. Ceir cyflwyniadau ar Google Classroom eich plentyn.



Sut ydy gwersi Lles yn helpu fy mhlentyn?

Dyma themâu'r ½ hwn:

Bl. 7: Hunangysyniad/ Bwlio

Bl. 8: Sylweddau/Huanofal

Bl. 9: Camddefnyddio sylweddau/ Bod yn garedig

Bl. 10: Edrych ar ôl ein hunain

Bl. 11: Camddefnyddio sylweddau/Huanofal

Mae PC Jenkin ein Swyddog Cyswllt Heddlu hefyd yn dod i mewn i'n gwersi Lles i gynnal sesiynau.

Rydym yn gwrandao ar lais y dysgwr a hefyd yn gwneud defnydd o'n data SHRN. Bydd y disgyblion yn cael cyfle i gymryd rhan mewn arolwg SHRN yr hanner tymor nesa a fydd yn ein cynorthwyo i adnabod anghenion pob blwyddyn.



Staff	
Ymwelwyr	
Tîm diogelu	

Pwy arall sydd ar gael i gefnogi fy mhlentyn?

Mae tîm **Lles a Chynhwysiant** ar gael er mwyn cefnogi eich plentyn i ddatblygu'n emosiynol, cymdeithasol, academiaidd ac ysbrydol i'w lawn botensial. Dyma'u manylion cyswllt pe baech angen cysylltu

<https://www.ygcwmrhondda.cymru/en/wellbeing/wellbeing-inclusion-team>

Gall eich plentyn hefyd ymgysylltu gyda'n swyddogion **Lles, Cynhwysiant ac Ymyrraethau** [Ms Danielle Vaughan, Mrs Sam Hughes a Ms Lisa Veck] sy'n cwblhau ymyrraethau grwp ac unigol, yn dibynnu ar anghenion eich plentyn.

Mae cadw ein dysgwyr yn **ddiogel** yn anhepgor i ni yn YGCR. Mae tîm o 9 swyddog Diogelwch gennym, gan gynnwys yr UDA i gyd, sydd wedi cwblhau hyfforddiant L3 neu'n uwch ac mae pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant L1.

<https://www.ygcwmrhondda.cymru/en/school-life/safeguarding>

Beth os ydw i eisiau ymweld â'r ysgol?

Os ydych yn dymuno ymweld â'r ysgol, am resymau diogelu, cysylltwch â'r ysgol cyn eich ymweliad, er enghraifft drwy e-bostio yr Awreinyd Blwyddyn i drefnu cyfarfod neu drwy gysylltu â'r derbynnydd ar 01443 680800. Mae prosesau diogelu ysgolion yn allweddol ar gyfer ymwelwyr â'r ysgol (gan gynnwys Rhieni/Gofalwyr):

Rhaid i chi **fewngofnodi** ym mhrif dderbynfa'r ysgol

Rhaid i chi wisgo **lanyard** 'ymwelwyr' dynodedig bob amser

Mae'n rhaid i chi **aros** yn nerbynfa'r brif ysgol nes bod aelod o staff yn cwrdd â chi neu'n cael ei gyfarwyddo fel arall gan y derbynnydd

Ni ddylai rhiant/gofalwr **drefnu i gwrdd** â'u plentyn yn uniongyrchol o fewn adeiladau'r ysgol nac o fewn perimedr ffens yr ysgol

Rhaid i bob ymwelydd gofrestru a dychwelyd lanyard yr ysgol i'r dderbynfa cyn gadael yr ysgol.





Pa gynhaliaeth sydd ar gael i gefnogi fy mhlentyn?



'DYSG' – CEFNOGAETH I CHI
WRTH WYNEBU HERIAU
GYDA'CH PLANT



<https://drive.google.com/file/d/1PwBNEVpfFXRjv5YUUpvsijK2gKEMWSf1H/view?usp=sharing>

Cynhaliaeth i
ddisgyblion YGCR



<https://sites.google.com/hwbcyrmru.net/daioniygcr/hafan>

Cwestiwn Lles

Defnyddiwn Google Classroom ddwy waith yr wythnos [Llun/Gwener] i ofyn i'ch plentyn sut y mae'n teimlo. Golyga hyn y gallwn weithredu'n **syth** pe bai problem neu bryder. Cofiwch fod y cwestiwn yn cau am **8.30 y bore**. Anogwch eich plentyn i ymateb **CYN** cyrraedd yr ysgol!




Winnie!

Bob dydd Mercher a Gwener mae Winnie yn dod i'r ysgol i weithio gyda disgyblion unigol a grwpiau. Mae'n hoff iawn o fynd ar yr iard i ddweud bore da cyn cofrestru a threulio amser gyda disgyblion amser egwyl a chinio... ac wrth gwrs mae wrth ei bodd pan mae'n gweld staff y gegin a'r swyddfa! lym!





Mae Chelsea Edwards o **YEPS** yn yr ysgol i gynnal sesiynau 1:1 **bob dydd**. Gall Chelsea gynnal sesiynau ar bob math o bynciau e.e. *hunan werth, magu hyder, pryderon cymdeithasu, rheoli tymer, perthnasoedd iach, sgiliau adolygu* unrhyw beth dan haul! Mae hefyd yn cynnal gweithgareddau ar ôl ysgol, gyda'r nos ac yn ystod y gwyliau.



Mae cwnselwyr **E2E** yn yr ysgol bob **Llun, Iau** a **Gwener**. Gallwch chi fel rhiant, neu'ch plentyn, gael mwy o wybodaeth trwy'r wefan **DAIONI** neu siaradwch ag aelod o'r tîm Lles a Chynhwysiant i wneud cyfeiriad.

Cynhelir apwyntiadau gyda Gemma Kozok, nyrs yr ysgol **bob dydd Mercher**. Bydd angen sicrhau bod apwyntiad, trwy Google Classroom, yn cael ei wneud **CYN 8.30 fore Mercher**



Hafan ginio –Gall eich plentyn chwarae gemau, gwneud celf a chreffft neu siarad gyda'i ffrindiau mewn ardal *dawelach*, i ffwrdd o brysurddeb arferol amser cinio.




CWTSH Y CWM
YSTAFELL
GYMUNEDOL
COMMUNITY
ROOM

Cwtsh@ygcwmrhondda.cymru



Un o becynnau bwyd ½ tymor diolch i'ch haelioni!



CWTSH Y CWM YGCR

Cymerwn unrhyw gyfraniad o ansawdd da iawn.....felly cofiwch amdanom! Dewch i ymweld â ni! Mae popeth yma o bethau am y ty, teganau plant i ddillad ar gyfer pob oedran, llyfrau, bwyd...**POPETH!** A chewch dalu beth bynnag #untîm #cwtshycwm





Yn YGCR, anelwn at godi ymwybyddiaeth o ddiwrnodau cenedlaethol ymhlith ein disgyblion e.e. **Diwrnodau Iechyd Meddwl**
<https://docs.google.com/presentation/d/1W3w1dOx6pK9XZfYeePLQcSnYctllcGc/edit?usp=sharing&ouid=104151140503423341654&rtpof=true&sd=true>

Diwrnod Cenedlaethol Ffitrwydd, Mis Hanes Pobl Dduon, Wythnos ailgylchu, Diwrnod Shwmae / Su'mae, Dangos y carden coch i Hiliaeth
<https://docs.google.com/presentation/d/1aSNzhc1uR1gn8qDm8LQ2XMHQI6-AMBM8/edit?usp=sharing&ouid=104151140503423341654&rtpof=true&sd=true>

Wythnos Gwrth-fwlio 2023:

Gwneud Sŵn am Fwlio

Dydd Llun 13eg - Dydd Gwener - 17 Tachwedd



Rydym wedi ail-frandio'n clwb 'Cymuned Gyfeillgar' i 'PAWB' sy'n cynnig lloches a hafan i bob un o'n cymuned ysgol a bydd yn cael ei ail-lawnsio yn ystod yr wythnos hon!



Cynhaliwyd bore coffi ar gyfer diwrnod MacMillan a chodom £80! Mor braf cael cyfle am banded a chlono gyda rhieni, mamgu/tad cu a gofalfwyr! Cadwch lygad allan am ein bore coffi nesa yn agosa at y Nadolig!

Aeth rhai o gymuned YGCR i ddysgu cân i ddisgyblion ysgol gynradd y Cymer ar ddiwrnod Shwmae Su'mae.



CRS



Rydym yn gobeithio cynnal ein cyfarfod Cymdeithas Rieni a Staff yn ystod yr hanner tymor nesaf. Cysylltwch â helengriffith@ygcwmrhondda.cymru pe hoffech ymuno â ni i godi arian ar gyfer ein cymuned ysgol



Edrychwn ymlaen yn fawr at ddechrau ein siwrne pontio gyda disgyblion a rhieni Bl 6 yr hanner tymor nesaf! Gweler y llythyr isod ar gyfer mwy o fanylion

https://docs.google.com/document/d/1ogKA1mdyp_E0J2NDJXvKFrDsJtnpYAB4/edit?usp=sharing&ouid=104151140503423341654&rtpof=true&sd=true

Hoffem estyn gwahoddiad i Fl6 + 5 ein clwstwr ddod i wyllo'n perfformiad o Annie yn y Phoenix. Cewch fwy o fanylion gan eich ysgol gynradd yn agosach at y dyddiad.



Hyrwyddwyd hunan-werth rhai o'n disgyblion wrth i Keris Louise Fitness a Lisa Waker ymweld ag YGCR yn rhan o'r daith ysgolion yr hanner tymor hwn i drafod hunan-werth a delwedd y corff, rhwydweithiau cymdeithasol, maeth a fitrwydd yn ogystal ag iechyd meddwl!

Annie

Rydym wedi gwranddo arnoch!

YGCER Rydym yn ysgol
Dim ffonau symudol



Ni ddylid gweld / clywed /
defnyddio ffonau symudol
na dyfeisiau eraill

"Dim ffôn mas o fewn y ffens las"

Rydym yn ysgol
Dim ffonau symudol



https://docs.google.com/presentation/d/1d5ODRpwj7vdcXVQrNvTXNy8-cpHo_PG5/edit?usp=sharing&ouid=104151140503423341654&rtfpof=true&sd=true



Google Classroom

Mae angen Google Classroom ar eich plentyn. Dyma ble y
bydd deunyddiau gwersi, cwestiynau lles/ apwyntiadau'r nyrs,
adnoddau bugeiliol a negeseuon blwyddyn.

Oes gennych gyfrif Classcharts?

Mae'n allweddol i chi
lawrlwytho'r app am mai dyma
sut rydym yn cyfathrebu gyda chi
am! Rhowch wybod os ydych
wedi colli eich côd unigryw.
Peidiwch â rhannu'ch côd
gyda'ch plentyn!

Llongyfarchiadau ar gyrraedd **100%** yr
hanner tymor hwn!



Pamffled Presenoldeb

https://drive.google.com/file/d/1n2kolbSnN0MoSvVitBUvj_nAQLB34dG/view?usp=sharing

Os yw'ch plentyn yn poeni am rywbeth yn yr ysgol, yna gofynnwn i chi gysylltu â'r tîm bugeiliol er mwyn i
ni gyd-weithio a symud unrhyw rwystrau sy'n ei atal rhag dod i'r ysgol. Cynyddu a wna'r broblem yn wrth
aros adref ac ni fydd y disgybl yn adeiladu unrhyw wytnwch nac yn ymbaratoi ar gyfer heriau bywyd.
Gofynnwn i chi ein cynorthwyo gan sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'n ddyddiol pe bai'n bosibl.

Cadwch yn ddiogel ar Noson Tân gwyllt!

<https://www.decymru-tan.gov.uk/ystafell-newyddion/newyddion/byddwch-yn-ddiogel-yn-lle-difaru-noson-tan-gwyllt-eleni/>

